

# Arweiniad i Gyfryngau Cymdeithasol

Llyfrgelloedd ac Archifau yng Nghymru



**Paratowyd gan:**

**Bethan Rogers a Jane Purdie  
Tîm Marchnata a Datblygu Cynulleidfa  
Ionawr 2014**

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	4
Nodau SMART	4
Cynnwys a Rheolaeth	5
Syniadau ar gyfer Cynnwys a Dolenni Defnyddiol	6
Manteisio ar gysylltiadau gyda Phobl Enwog	6
Derek y Dyn Tywydd	7
Dr Rhys Jones a Nigel Owens	7
Crëwch eich Person Enwog eich Hun	8
Dyddiadau Allweddol	8
Hysbysebu	10
Cynulleidfaoedd Targed	11
Blogiau	12
Mesur ac Arfarnu	12
Y Llais	13
Ymrwymo Amser	13
Wastad Ymlaen	14
Atodiad	15
Llyfryddiaeth	17

***Cydnabyddiaeth:***

***Cynhyrchwyd y ddogfen hon yn sgil ymgynghoriad gan Howard Scott, HBall Limited. Canlyniad hyn oedd cynhyrchu strategaeth cyfryngau cymdeithasol amlinellol i Lyfrgelloedd Cymru. Mae'r Tîm marchnata a datblygu cynulleidfa wedi defnyddio elfennau o'r ddogfen hon i ddatblygu'r arweiniad hwn i'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru.***

# 5 OF SOCIAL MEDIA YEARS

In the last 5 years social media has grown to unfathomable heights. From dorm room inventions to a multi billion dollar industry, social media has changed the way people drive political, social and economic change.

5 years ago, HootSuite was born. Thank you to the over 8 million people worldwide who have been a part of our incredible journey so far, we look forward to the history we'll make in the next 5 years.

#thanksfor5

## NUMBER OF ACTIVE SOCIAL MEDIA USERS


# 1,730,000,000

active users worldwide.

1/4 of the World's population uses social media.



## NUMBER OF ACTIVE USERS PER SOCIAL NETWORK




## SOCIAL NETWORK VALUATIONS

# \$150,600,000,000

Total value of top networks

FACEBOOK \$100B      LINKEDIN \$26.6B      TWITTER \$24B



## Cyflwyniad

Fel y gwelir o'r graffiau uchod. Mae'r twf yn y cyfryngau cymdeithasol dros y pum mlynedd diwethaf wedi bod yn aruthrol ac mae'n debygol o barhau i fod yn arf pwysig ar gyfer marchnata a chyfathrebu ym mhob sector. Dyma, bellach, lle mae modd canfod y mwyafrif o'n cwsmeriaid ar ryw ffurf - boed trwy eu dyfais symudol neu eu ffôn clyfar.

Bwriad y ddogfen hon yw bod yn arweiniad i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac mae wedi'i hanelu at staff llyfrgelloedd ac archifau sy'n datblygu eu presenoldeb eu hunain yn y cyfryngau cymdeithasol.

Yn sgil y sesiynau ymgynghorol cyntaf gyda Hball Limited, mae tîm marchnata a datblygu cynulleidfa Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru wedi ychwanegu at y casgliadau trwy gynnwys enghreifftiau o arfer gorau o'r sector a gwybodaeth leol yn seiliedig ar dwf parhaus y cyfryngau cymdeithasol fel arf marchnata yn y sector hwn yng Nghymru.

Yn y ddogfen hon amlinellir y strategaethau cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddir gan y tîm marchnata – sianelau cyfathrebu, manteision, mesur ac arfarnu. Mae nifer o'r elfennau hyn yn drosglwyddadwy ac yn gallu cael eu defnyddio gan staff yn lleol er mwyn gwella eu presenoldeb eu hunain yn y cyfryngau cymdeithasol.

Un o'r ffyrdd gorau o ddangos yr effaith y mae cyfryngau cymdeithasol yn ei chael yw mesur y llwyddiant yn erbyn nodau sydd eisoes wedi'u gosod ac yn erbyn amcanion SMART. Mae'r isod ymhlith nodau Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru:

### **Amcanion SMART 2014 – 2015**

- Cynyddu'r defnydd a wneir o'r we o leiaf 10%
- Cael 100 o bobl ychwanegol i gofrestru ar gyfer yr e-gylchlythyr
- Cynyddu nifer dilynwyr Facebook 50%
- Cynyddu cyfanswm cyrhaeddiad y cyfryngau cymdeithasol 10%
- Cynyddu nifer y troeon yr edrychir ar sianelau YouTube 5%
- Cynyddu sylwadau / crybwylliadau ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol 10%

### **Nodau eraill 2014 - 2015**

- Ymgysylltu'n ddyfnach gyda chwsmeriaid trwy gyfathrebu uniongyrchol - wedi'i fesur yn ôl sgysiau / negeseuon uniongyrchol ar Facebook/Twitter, ac ati.
- Ymgysylltu gyda defnyddwyr posib y llyfrgell a'u hannog i ddefnyddio llyfrgelloedd – wedi'i fesur yn lleol gan staff y llyfrgell.
- Dylanwadu ar y dylanwadwyr a lledaenu'r neges mor eang â phosib

- Codi ymwybyddiaeth o'r gwahanol wasanaethau y mae'r llyfrgell yn eu darparu a'u hyrwyddo trwy ymgyrchoedd a dargedir.

## Cynnwys a Rheolaeth

Mae cynhyrchu a rheoli cynnwys yn rhan greiddiol o unrhyw strategaeth cyfryngau cymdeithasol. Ffordd dda o adnabod cynnwys yw canolbwyntio ar galendr a nodi cynnwys o amgylch 'digwyddiadau'. Ymhlith enghreifftiau o hyn mae Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd ac #AskArchivistsDay

Gall y cynnwys fod yn:

- Fideos
- Ffotograffau
- Sgyrsiau / areithiau wedi'u recordio
- Post ysgrifenedig
- Straeon newyddion o llyfrgelloeddymru.org
- Straeon newyddion cyffredinol Archifau a Llyfrgelloedd o'r Deyrnas Unedig a thramor, wedi'u cymryd oddi ar wahanol wefannau.

Mae'n bwysig cadw llygad ar ffynonellau eich cynnwys a pha mor aml y byddwch yn postio cynnwys. Trwy ddefnyddio tabl (gweler yr esiampl isod) byddwch yn gallu monitro'r cynnwys y byddwch yn ei gyhoeddi a'i gynhyrchu ac arfarnu ffynonellau yr ydych yn eu defnyddio amlaf yn hawdd. Yna gellir defnyddio'r arf hwn yn y dyfodol i ailbostio gwybodaeth a allai ddod yn berthnasol eto.


Llwyfan	Diwrnod	Dyddiad	Rhan o'r Dydd	Categori Cynnwys	Dolen / Ffynhonnell	Nodiadau
<i>Twitter</i>	<i>Dydd Llundun</i>	<i>29/09/2013</i>	<i>Bore</i>	<i>e-lyfrau</i>	<i>Y gair allweddol yw dolen AM DDIM i dudalen yr e-lyfrau ar llyfrgelloeddymru.org</i>	<i>Ychwanegu lluniau o ddelweddau stoc o e-ddefnyddwyr</i>

Rhaid i gynnwys gael ei bostio'n rheolaidd neu, fel arall, ni fydd tudalennau'r cyfryngau cymdeithasol i'w gweld ar y llwyfannau a'r peiriannau chwilio. Gall meddalwedd rheoli cynnwys, megis Hootsuite ([www.Hootsuite.com](http://www.Hootsuite.com)), fod o gymorth wrth sicrhau bod digon o bost yn cael ei gynnwys a bod sylw'n cael ei roi i'r

tudalennau yng ngofodau'r cyfryngau cymdeithasol prysur. At hyn, mae modd defnyddio Hootsuite i fesur ac arfarnu eich presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol (gweler tudalen 12).

## Syniadau ar gyfer Cynnwys a Dolenni Defnyddiol

Mae llawer o ffotograffau a phosteri ar Pinterest (<https://www.pinterest.com/>) y mae modd eu defnyddio fel cynnwys ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Mae defnyddio delweddau oddi ar Pinterest ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol eich hun yn gynnwys fydd yn dda ond sicrhewch y rhoddir cydnabyddiaeth glir i'r ffynhonnell a, lle bo'n bosib, ychwanegu'r ddolen at y cynnwys gwreiddiol.



## Manteisio ar gysylltiadau gyda Phobl Enwog

Er bod modd defnyddio pobl enwog i ddod ag urddas a difrifoldeb i ymgyrch, yr hyn y dylai'r nod fod yw eu defnyddio ar gyfer agwedd bwysicach o'u bywydau cyfryngau cymdeithasol – eu cyrhaeddiad (faint o ddilynwyr sydd ganddynt, faint o bost y maent yn eu hysgrifennu, ac ati).

Mae gan bobl enwog ar gyfryngau cymdeithasol niferoedd mawr iawn o ddilynwyr. Wrth fynd ati i adnabod, targedu ac ymgysylltu â phobl enwog **berthnasol**, bydd modd i Lyfrgelloedd ac Archifau Cymru ymestyn eu cyrhaeddiad.

## Derek y Dyn Tywydd

Enghraifft dda o Lyfrgelloedd Cymru'n manteisio ar gyswllt â pherson enwog yw eu perthynas â Derek y Dyn Tywydd. Mae'n eiriolwr pwerus dros Lyfrgelloedd Cymru, mae wedi bod mewn nifer o ddiwyddiadau ac wedi cymryd rhan mewn llawer o ymgyrchoedd llyfrgell. Mae'n trydar yn helaeth ac mae ganddo sgôr Klout o 66 a 34,955 o ddilynwyr.

*Sgôr Klout* unigolyn yw rhif rhwng 1 and 100 sy'n cynrychioli ei ddylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol. Po fwyaf dylanwadol yw'r unigolyn, yr uchaf yw ei sgôr Klout. Arddangosir sgoriau Klout yn nhrosolygon proffil Twitter ar Hootsuite felly, mae'n eithaf hawdd gweld pa mor ddylanwadol yw'r unigolyn hwnnw. Am ragor o wybodaeth ewch i [www.klout.com](http://www.klout.com) <<http://www.klout.com>>

Followers	Following	Updates	Klout
35,635	941	44,728	66

**Location** Barbados-Cardiff-Cymru-UK

**Bio** Shwmae? I'm Derek the weatherman walking. Met Office forecaster and BBC Wales meteorologist. Weather enthusiast since 1976. FRMetS <http://t.co/WTKrMZISXP>

**Twitter** <http://twitter.com/DerekTheWeather>

**Website** <http://t.co/FvjTYGSPr>

## Dr Rhys Jones a Nigel Owens

**Dr Rhys Jones** @DrJonesWales 28 Nov  
@WelshLibraries I had a fantastic day talking to @AberUni students & encouraging some excited young people to read, wonderful :) @WelshStars  
View conversation Reply Retweet Favorite More

**Nigel Owens** @Nigelrefowens 12 Oct  
@WelshLibraries Was a pleasure to launch the Get Reading, Get Better, Get Libraries @ ParcYScarlets! [ow.ly/l/3paXA](http://ow.ly/l/3paXA) @WG\_CultureMin  
View photo Reply Retweet Favorite More

Pan fo unigolion enwog yn mynd i ddiwyddiadau neu'n cefnogi ymgyrchoedd, mae'n hanfodol eu bod yn cefnogi'r elfen cyfryngau cymdeithasol ac yn lledaenu'r gair am y digwyddiad/ymgyrch. Mae trydar pobl enwog yn ffordd dda o'u cyrraedd a chael eu cefnogaeth yn ogystal â chymryd mantais o'u 'cyrhaeddiad' posib. Pan fo pobl enwog yn aildrydar post atoch chi, mae modd i gynulleidfa gwbl newydd a defnyddwyr posib newydd y gwasanaeth llyfrgell gael mynediad iddynt.

## Crëwch eich Person Enwog eich Hun!

Mae gan Lyfrgelloedd Cymru ac Archifau Cymru doreth o arbenigwrwydd yn y sefydliadau ar nifer fawr o bynciau. Yr hyn y mae 'Crëwch eich Person Enwog eich Hun' yn ei olygu yw adnabod grŵp craidd o bobl o'r sefydliad sy'n arbenigwyr yn eu maes ac yn dod drosodd yn dda ar gamera a/neu ar bapur.

Yna, mae modd cynnwys yr arbenigwyr hyn mewn rhaglen o gynnwys am y misoedd i ddod gyda phost blog gwadd ar y wefan neu ar sianelau'r cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft:

*Mis Ionawr*

Post Blog – person 1

Post Fideo – person 2

*Mis Chwefror*

Post Blog – person 3

Post Fideo - person 4

## Dyddiadau Allweddol

Lluniwch galendr o ddyddiadau allweddol - dyddiadau yw'r rhain y gallwch greu straeon a chynnwys o'u cwmpas er mwyn hyrwyddo llyfrgelloedd neu archifau yn ogystal â manteisio ar gyhoeddusrwydd ehangach. Mae Tîm Marchnata a Datblygu Cynulleidfa Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru'n cynhyrchu calendr o ddyddiadau allweddol y mae modd ei ddefnyddio i'r perwyl hwn bob blwyddyn.

Mae'r calendr hwn ar gael i'w weld / lawrlwytho o becynnau offer staff:

[http://welshlibraries.org/cy/stafftoolkit/?no\\_cache=1](http://welshlibraries.org/cy/stafftoolkit/?no_cache=1)  
<http://archiveswales.org.uk/cy/pecyn-offer-staff/pecyn-offer-archifau-cymru/>

Ymhlith dyddiadau mae Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth, Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd, Diwrnod Cenedlaethol Archifau – dyddiadau coffa, yn ogystal â dyddiau hynod, megis Diwrnod Cenedlaethol Dwdlio neu Ddiwrnod Cenedlaethol Siarad fel Môr-leidr.


Mae ymgyrchoedd cenedlaethol yn cael llawer o sylw, er enghraifft Diwrnod Cenedlaethol Llyfrgelloedd. Mae'n bwysig ymuno â'r sgysia hyn fel bod cynulleidfa ehangach yn clywed eich llais.

Enghraifft dda yw'r ymgyrch genedlaethol 'Archwiliwch eich Archif'. Mae'n dangos y cyrhaeddiad y gellir ei gael gydag ymgyrch genedlaethol a chan ddefnyddio hashnod penodol.

Mae defnyddio hashnodau yn gwneud i farchnatwyr gadw llygad ar ba mor aml y cânt eu defnyddio a phwy sy'n eu defnyddio. Ffordd hawdd o wneud hyn yw trwy



ddefnyddio gwefannau, megis <http://www.tweet-tag.com>. Fodd bynnag, mae modd monitro hashnodau'n hawdd mewn amser real trwy chwilio amdanynt yn Twitter ei hun. Yr hashnod a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymgyrch 'Archwiliwch eich Archif' oedd #explorearchives. Fe'i defnyddiwyd yn genedlaethol ac mae modd ei weld yn yr enghraifft isod:



Mae'r enghraifft hon hefyd yn dangos sut mae modd brandio tudalennau ar gyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd ag ymgyrchoedd penodol. Ar gyfer holl ymgyrchoedd Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru cynhyrchir lluniau proffil a gwaith celf Facebook a Twitter fel bod modd brandio pob tudalen yn y cyfryngau cymdeithasol i gyd-fynd â'r ymgyrch ac ailategu'r negeseuon allweddol. Gweler yr enghraifft isod o dudalen Facebook:




Ffordd arall o frandio eich proffil yn ystod ymgyrch yw trwy ddefnyddio llun proffil ar twitter sy'n cefnogi ymgyrch benodol ('twibbon'). Am ragor o wybodaeth ynghylch gosod a dylunio eich lluniau proffil eich hun i gefnogi ymgyrchoedd, ewch i <http://twibbon.com/discover>

## Hysbysebu

Mae modd defnyddio hysbysebion ar Facebook [www.facebook.com/ads](http://www.facebook.com/ads) i gefnogi ymgyrchoedd a digwyddiadau ac mae modd pennu ymlaen llaw faint rydych yn dymuno ei wario ar hysbysebion fel na fyddwch yn gwario mwy na hynny. Mae modd defnyddio'r math hwn o hysbysebu mewn hyrddiau byr a sydyn er mwyn cynyddu sawl gwaith y bydd rhywun yn 'hoffi' tudalennau, yn ogystal â hyrwyddo cynigion neu gasgliadau llyfrgelloedd / archifau penodol.

Isod ceir ychydig o ystadegau o rai o ymgyrchoedd hysbysebu Facebook a gynhaliwyd gan Lyfrgelloedd Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf:

Ad Preview	Targeting	Performance
<p><b>Welsh Libraries</b></p>  <p>Love Reading? Get FREE e-books from Welsh Libraries. Over 10,000 titles to choose from!</p> <p>2,191 people like Welsh Libraries.</p> <p><a href="#">View on Right Hand Side</a> <a href="#">Create a Similar Ad</a></p>	<p><b>Potential Audience for this ad: 1,280,000 people</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Who live in the United Kingdom</li> <li>Who live in Wales</li> <li>Who are not already connected to Welsh Libraries</li> </ul> <p><a href="#">Close</a></p>	<p><b>Actions</b></p> <p>113 Total Actions?</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>84 Page Likes?</li> <li>16 Post Likes?</li> <li>8 Post Shares?</li> <li>5 Other Actions?</li> </ul> <p><a href="#">See full actions report</a></p>

<b>Neges</b>	<b>Manylion Hysbysebu</b>	<b>Cyfanswm Y gost</b>	<b>Faint yn fwy gafodd 'hoffi'</b>	<b>Cynnydd %</b>	<b>Faint a gafodd 'hoffi' erbyn diwedd yr ymgyrch</b>
I'r Llyfrgell	5 diwrnod	50	181	169%	288
E-lyfrau am ddim	7 diwrnod	350	388	126%	696
Diwrnod Cen. Llyfrgelloedd	5 diwrnod	250	468	154%	1188
Cystadleuaeth Kobo	5 diwrnod	50	138	11%	1357
Hyrwyddo e-lyfrau	5 diwrnod	50	125	9%	1482
Sialens Ddarllen yr Haf	5 diwrnod	250.25	248	17%	1731
Llyfrau Gwaharddedig	7 diwrnod	70	153	8.70%	1902
Zinio	7 diwrnod	£70	137	6.60%	2047

## Cynulleidfaoedd Targed

Gan fod cynulleidfaoedd Llyfrgelloedd ac Archifau Cymru mor eang, weithiau mae'n well rhannu'r gynulleidfa'n sectorau cynhyrchu ac nid yn sectorau oedran/demograffeg.

Gall tanlinellu cynigion y llyfrgell mewn gofodau cymdeithasol perthnasol megis Facebook a Twitter fod yn hynod fanteisiol. Enghraifft o hyn yw hyrwyddo e-lyfrau trwy dargedu hysbysebu ar Facebook. Targedodd Llyfrgelloedd Cymru bobl sydd â diddordeb mewn technoleg a gellir arfarnu'r hysbysebu hwn yma:

<b>Pwnc</b>	<b>Hyd yr ymgyrch</b>	<b>Cyfanswm y gost</b>	<b>Cynnydd yn y nifer yr 'hoffi' %</b>	<b>Targedwyd</b>	<b>Cynulleidfa darged</b>
E-lyfrau am ddim	7 diwrnod	350	126%	Pobl yn byw yng Nghymru ac sydd â diddordeb mewn technoleg	18,500

O fewn saith diwrnod roedd cynnydd o 126% yn y nifer oedd yn 'hoffi' Llyfrgelloedd Cymru. At hyn, yn ystod y cyfnod hwn roedd nifer yr e-lyfrau a godwyd o lyfrgelloedd wedi codi 17% ar y mis blaenorol.


Y bwriad yw cael rhagor o ymgyrchoedd o'r math hwn yn y dyfodol er mwyn adeiladu ar lwyddiant ymgyrchoedd a dargedir a rhai ag iddynt amser penodol.

## Blogiau


Gall creu blog gymryd cyn lleied â phum munud. Mae pobl o bedwar ban byd yn blogio ynghylch newyddion, materion cyfoes, eu barn, yr hyn y maent yn ei gredu ac ynghylch eu profiadau. Eisoes, caiff hyn ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn sectorau'r llyfrgelloedd a'r archifau.

Er enghraifft, mae gan wasanaethau a systemau Gwybodaeth Prifysgol Abertawe ac Archifau Sir Ddinbych flogiau prysur gyda chynnwys diddorol a rheolaidd a nifer o ddilynwyr.

Mae'n hawdd monitro blogiau a gallant fod cyn fyrred neu cyn hired ag y dymunech. Mae modd dewis o ychydig o lwyfannau blogio gwahanol, y rhai mwyaf poblogaidd o'r rhain yw: *Wordpress*, *Blogger*, *MSN spaces* a *TypePad*. Manteision blogio yw ei fod yn rhad i'w gynnal, yn syml i'w osod a'i fonitro ac os defnyddiwyd un o'r llwyfannau blogio uchod mae modd mynegeo post eich blog yn awtomatig i mewn i beiriannau chwilio fel Google.



Blog Archifau Sir Ddinbych



Blog Systemau a Gwasanaethau Gwybodaeth Prifysgol Abertawe

## Mesur ac Arfarnu

Mae modd defnyddio gwahanol becynnau cymorth i fonitro ac arfarnu effeithiolrwydd llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Dyma rai enghreifftiau:

*Tweet Reach* – gwefan sy'n rhad ac am ddim yw hon sy'n caniatáu i chi gofnodi gair, ymadrodd, @enwdefnyddiwr neu hashnod a bydd yn cyfrifo faint o bobl /cyfrifon y mae'r neges honno wedi'u cyrraedd.

*Ap Tudalennau* - Ap sy'n rhad ac am ddim yw hwn i gadw trefn ar eich tudalennau Facebook (yn enwedig, felly, os oes gennych fwy nag un dudalen e.e. tudalennau Cymraeg a Saesneg ar wahân). Gyda'r ap hwn, hefyd, cewch ryw gymaint o ddata 'insights' ynghylch faint o bobl sydd wedi gweld eich post.

*Facebook Insights* – Mae'r ap hwn sy'n rhad ac am ddim wedi'i adeiladu i mewn i'ch tudalen Facebook ar yr adran weinyddol. Mae'n arf gwych i gynorthwyo gydag arfarnu ac adroddiadau. Mae'r 'Insights' yn rhoi data megis ymgysylltu â phost, faint o bobl rydych wedi'u cyrraedd, y post mwyaf poblogaidd a sawl gwaith y cafodd eich tudalen ei 'hoffi'.

*Hootsuite* – Gall hwn fod yn arf gwych i reoli faint o amser a dreulir ar y cyfryngau cymdeithasol. Gall un person ddefnyddio'r arf hwn a gallu trefnu gwerth mis o bost ar yr un pryd. Mae'n arf sy'n rhad ac am ddim ond gyda fersiwn 'Pro' Hootsuite, y telir amdano, mae modd uwchlwytho swp o bost oddi ar daenlen.

Mae Hootsuite yn arf gwych i fesur ac arfarnu effeithiolrwydd gweithgareddau'r cyfryngau cymdeithasol. Gall Hootsuite ddarparu adroddiadau sylfaenol er mwyn mesur gwerth perfformiad cyfryngau cymdeithasol. Gall Hootsuite Pro (y rhifyn y telir amdano) ddarparu adroddiadau a graffiau dyfnach y gellir eu cynhyrchu bob mis neu ar adegau arbennig o brysur pan gynhelir ymgyrchoedd.

## Llais Cyson

Mae'n bwysig cael llais cyson ar gyfer eich presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol. Os oes gennych sawl person yn postio efallai y byddai'n syniad da rhoi enw'r person hwnnw ar ôl y post, neu gynnwys rhywbeth i'r perwyl 'ceir post heddiw gan ?? o lyfrgell / archif ??'.

Fodd bynnag, nid yw wastad yn ymarferol defnyddio mwy nag un person ar gyfer y rôl hon; bydd y gynulleidfa'n datblygu ymdeimlad at y dudalen a byddant yn fwy tebygol o ymateb os oes ganddynt negeseuon cyson a chlir.

## Ymrwymo Amser

Dylid torri ar ddiwrnod gwaith arferol gyda chyfnodau craidd o weithgaredd cyfryngau cymdeithasol a bod ag agwedd 'wastad ymlaen' pan fyddwch ar gael, gyda thri chyfnod penodol o weithgaredd:

- Y peth cyntaf yn y bore

- Amser cinio
- Ar ddiwedd dydd

15 munud o weithgaredd craidd yn ymdrin â cheisiadau, cwestiynau neu eitemau sy'n ymddangos yn ein rhestrau sydd wedi'u hidlo ar Hootsuite ac sy'n berthnasol i'n meysydd ni o arbenigedd.

Croes-sianelu er mwyn sicrhau y dosberthir cynnwys yn eang i Facebook, Twitter, ac ati.

O ran amser, mae'n bwysig cadw llygad ar faint a dreulir ar y cyfryngau cymdeithasol ac a yw'n creu'r canlyniadau gofynnol.

Rhaid ystyried gwyliau a dyddiau i ffwrdd a rhaid bod camau priodol yn eu lle i ymdrin ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau a allai godi pan nad yw'r sawl sy'n ymdrin â'r cyfryngau cymdeithasol ar gael.

## **Wastad ymlaen**

Defnyddio hidlyddion Hootsuite i fonitro'n gyson y ffrydiau cynnwys – defnyddio cyfrifiadur neu ddyfais tabled ar wahân.

Yn ddelfrydol, ateb yn syth unrhyw gwestiynau y mae modd eu gwneud mewn hyrddiau byr a sydyn.

Mae fin nos a'r penwythnos yn gyfnodau brig i weithgareddau cyfryngau cymdeithasol ac efallai bydd y sawl sy'n gyfrifol am ymdrin â chynnwys y cyfryngau cymdeithasol yn postio, yn ateb ac yn aillbostio pan nad yw 'yn ei waith'. O'r herwydd, rhaid ystyried hyn er mwyn sicrhau nad yw staff yn teimlo eu bod yn gorfod gweithio'r oriau ychwanegol hyn ac y cânt eu rheoli'n sensitif.

# Atodiad

## Dolenni defnyddiol

- <http://thewikiman.org/blog/>
- <http://www.slideshare.net/Philbradley/why-librarians-must-use-social-media>

## Dylanwadwyr Allweddol i Welsh Libraries

- Ian Anstice – Crëwr *Public Library News* (1283 o ddilynwyr, Klout: 55)
- John Griffiths – Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon (1144 o ddilynwyr, Klout: 51)
- *Voices for the Library* (5626 o ddilynwyr, Klout: 47)
- Cyngor Llyfrau Cymru (354 o ddilynwyr, Klout: 37)
- Yr Adran Addysg a Sgiliau (4142 o ddilynwyr, Klout:52)
- Tom Palmer (1480 o ddilynwyr, Klout: 39)
- Phil Bradley (8505 o ddilynwyr, Klout:63)
- *Book Riot* (44,422 o ddilynwyr, Klout: 81)
- Rob Green – Gohebydd CILIP (535 o ddilynwyr, Klout:29)
- Paul Rowland - Pennaeth y We yn *Wales Online* (1454 o ddilynwyr, Klout:51)
- Derek Brockway (35,638 o ddilynwyr, Klout: 66)
- Dr Rhys Jones (2089 o ddilynwyr, Klout:53)
- Cathryn Marcus – Cyfarwyddwr Cymunedau 2.0 (202 o ddilynwyr, Klout: 29)
- Shirley Burnham (809 o ddilynwyr, Klout:43)
- Carwyn Jones – Prif Weinidog (10,639 o ddilynwyr, Klout:61)
- Colin Jackson (26,318 o ddilynwyr, Klout:58)
- Geraint Thomas (130,046 o ddilynwyr, Klout:81)
- *Book Brunch* (2942 o ddilynwyr, Klout: 49)
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru (5602 o ddilynwyr, Klout:54)
- Tom Sheldrick – Newyddiadurwr ITV Wales (542 o ddilynwyr, Klout: 39)
- *The Guardian* (1,760,681 o ddilynwyr, Klout: 99)
- *We Love this Book* (17,920 o ddilynwyr, Klout 58)
- Llyfrau *Huff Post* (119,263 o ddilynwyr, Klout:81)
- Llywodraeth Cymru (27,748 o ddilynwyr, Klout:62)
- Cerys Matthews (42,243 o ddilynwyr, Klout:64)
- Dan Snow (63,874 o ddilynwyr, Klout: 68)
- *The Bookseller* (83,214, Klout: 67)
- Llyfrau *The Guardian* (610,494 o ddilynwyr, Klout: 82)
- *Love Reading* (24,884 o ddilynwyr, Klout: 65)
- Llyfrau *The Telegraph* (89,751 o ddilynwyr, Klout: 66)
- Huw Thomas – Gohebydd BBC Wales (4110 o ddilynwyr, Klout: 56)
- *The Reader Org* (6906 o ddilynwyr, Klout: 59)
- Colin Wright, awdur (10,789 o ddilynwyr, Klout: 71)
- *BBC Wales* (41,523 o ddilynwyr, Klout: 79)

- Alyson Tyler, Rheolwr Rhaglen Datblygu Llyfrgelloedd yn CyMAL (630 o ddilynwyr, Klout 45)

### **Dylanwadwyr Allweddol i Lyfrgelloedd Cymru**

- Llyfrgell Abertawe (71 o ddilynwyr, Klout; 37)
- John Griffiths, Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon (1144 o ddilynwyr, Klout:51)
- Bethan M Hughes (142 o ddilynwyr, Klout: 36)
- Llyfrgelloedd Powys (225 o ddilynwyr, Klout: 35)
- Gomer (1436 o ddilynwyr, Klout: 46)
- Llyfrgell Gwynedd (534 o ddilynwyr, Klout: 38)
- Dr Rhys Jones (2089 o ddilynwyr, Klout:53)
- Llyfrgelloedd Sir Gâr (1181 o ddilynwyr, Klout:47)
- Shirley Burnham (809 o ddilynwyr, Klout:43)
- Carwyn Jones (10,639 o ddilynwyr, Klout:61)
- Llywodraeth Cymru (2408 o ddilynwyr, Klout: 50)
- Alyson Tyler, Rheolwr Datblygu Rhaglenni Llyfrgelloedd yn CyMAL (630 o ddilynwyr, Klout 45)

### **Dylanwadwyr Allweddol i Archifau Cymru**

- Archif Gorllewin Morgannwg (24 o ddilynwyr, Klout 17)
- West Glamorgan Archives (458 o ddilynwyr, Klout: 41)
- Archifau Sain Ffagan (750 o ddilynwyr, Klout:41)
- Archifau Morgannwg (1,333 o ddilynwyr, Klout: 48)
- Comisiwn Brenhinol (3648 o ddilynwyr, Klout: 48)
- Alyson Tyler, Rheolwr Datblygu Rhaglenni Llyfrgelloedd yn CyMAL (630 o ddilynwyr, Klout 45)

### **Dylanwadwyr Allweddol i Archives Wales**

- BALH – Cymdeithas Hanes Lleol Prydain (164 o ddilynwyr, Klout: 20)
- John Griffiths (1144 o ddilynwyr, Klout:51)
- Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg i ysgolion – porthiant ysgolion (36 o ddilynwyr, Klout: 25)
- Archif Menywod Cymru (125 o ddilynwyr, Klout: 26)
- Archifau Gorllewin Morgannwg (458 o ddilynwyr, Klout: 41)
- Pwyllgor Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru (397 o ddilynwyr, Klout: 42)
- Amgueddfa Rhyfel yr Ymerodraeth: Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf (7389 o ddilynwyr, Klout: 60)
- Archifau Morgannwg (1,333 o ddilynwyr, Klout: 48)
- Marie Owens (539 o ddilynwyr, Klout: 42)
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru (5602 o ddilynwyr, Klout: 54)
- Huw Thomas – gohebydd newyddion *BBC Wales* (4110 o ddilynwyr, Klout: 56)



- Dan Snow (63,874 o ddilynwyr, Klout: 68)
- Alyson Tyler, Rheolwr Datblygu Rhaglenni Llyfrgelloedd yn CyMAL (630 o ddilynwyr, Klout 45)
- Archifau Gwladol y Deyrnas Unedig (32,424 o ddilynwyr, Klout: 65)
- Paul Rowland - Pennaeth y We yn *Wales Online* (1454 o ddilynwyr, Klout:51)
- Carwyn Jones – Prif Weinidog (10,639 o ddilynwyr, Klout:61)
- Tom Sheldrick – Newyddiadurwr i *ITV Wales* (542 o ddilynwyr, Klout: 39)
- Llywodraeth Cymru (27,748 o ddilynwyr, Klout:62)
- *BBC Wales* (41,523 o ddilynwyr, Klout: 79)

### **Llyfryddiaeth**

- *Marketing in the Age of Google* – Vanessa Fox
- *Online Marketing – a Customer led approach* – Richard Gay et al
- *Understanding Digital Marketing* – Damian Ryan a Calvin Jones